



TAFLEN WAITH AR GLUDIANT

Ewch am dro i **STRYD DWY DROED**.

Cerddwch o gwmpas Stryd Dwy Droed ac edrychwch ar y byrddau arddangos. Yna, atebwch y cwestiynau isod.


Mae cludiant yn wirioneddol bwysig. Mae ei angen i fynd o le i le, i fynd i'r ysgol a'r siopau. Rydym hefyd yn hoffi mynd ar wyliau. Y broblem yw bod ceir ac awyrennau'n defnyddio llawer iawn o danwydd ffosiledig ar ffurf petrol, diesel ac olew. Mae hyn yn cynhyrchu llawer iawn o llygredd a charbon deuocsid. Mae'r nwyon hyn yn ychwanegu at effaith y tŷ gwydr ac yn cyfrannu at gynhesu byd-eang.

1. Pa fath o gludiant y byddwch yn ei ddefnyddio i fynd i'r ysgol bob dydd? Beth yw ffynhonnell y pŵer?

Cludiant	A ydych yn ei ddefnyddio? (Ydw neu nac ydw)	Beth sy'n ei bweru?	A yw hyn yn achosi llygredd?
Ar droed			
Beic			
Car			
Trên			
Bws			

2. Pam ydych chi'n defnyddio'r math yma o gludiant?

3. Edrychwch ar y graff isod. Mae hwn yn dangos effaith gwahanol ddulliau cludiant ar y blaned am bob cilometr y byddwch yn ei deithio.



3a. Pa fath o gludiant sy'n cael yr effaith leiaf ar y blaned?

3b. Pa fath o gerbyd sy'n cael yr effaith fwyaf ar y blaned?

4. Mae seiclo'n cael ychydig fwy o effaith ar y blaned na cherdded oherwydd ei fod yn defnyddio rwber ar gyfer y teiars a metelau i wneud y ffrâm mewn ffatrioedd. Pam y byddai car yn cael fwy byth o effaith? Meddyliwch am beth mae car yn ei ddefnyddio fel tanwydd a beth mae'n rhaid i geir deithio hyd-ddynt.

5. Edrychwch ar y byrddau arddangos yn Stryd Dwy Droed. Rhestrwch y pethau y gallen ni eu gwneud yn hytrach na defnyddio ceir i fynd o fan i fan.

6. Rhestrwch 4 mantais o ddefnyddio llai o geir.

7. Wrth i chi adael Stryd Dwy Droed, byddwch yn mynd heibio i ddau gartŵn mawr. Mae'r naill ar y chwith yn dangos tref yn y dyfodol sydd wedi newid ei thechnoleg i systemau cludiant nad ydynt yn defnyddio tanwydd ffosiledig. Mae llawer iawn o dagfeydd ceir trydan o hyd, ond nid oes unrhyw lygredd yn cael ei greu. Mae'r llun ar y dde yn dangos y byd yn y dyfodol lle mae pobl wedi newid eu ffordd o fyw i ddefnyddio mwy o feiciau, llwybrau a chludiant cyhoeddus. Tynnwch fraslun o sut yr hoffech weld systemau cludiant mewn trefi yn y dyfodol. Labelwch eich diagram.